Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar

Caneuon Ffydd: Rhif 493

Mi dafla' 'maich oddi ar fy ngwar
wrth deimlo dwyfol loes;
euogrwydd fel mynyddoedd byd
dry'n ganu wrth dy groes.

Os edrych wnaf i'r dwyrain draw,
os edrych wnaf i'r de,
ymhlith a fu, neu ynteu ddaw,
'does debyg iddo fe.

Fe roes ei ddwylo pur ar led,
fe wisgodd goron ddrain
er mwyn i'r brwnt gael bod yn wyn
fel hyfryd liain main.

Esgyn a wnaeth i entrych nef
i eiriol dros y gwan;
fe sugna f'enaid innau'n lân
i'w fynwes yn y man.

Ac yna caf fod gydag ef
pan êl y byd ar dân,
ac edrych yn ei hyfryd wedd,
gan' harddach nag o'r blaen.

WILLIAM WILLIAMS, 1717–91

MYFYRDOD

Fe wyddai William Williams, Pantycelyn, gystal â neb am ddirgelion ac anghenion y galon ddynol. Fel emynydd y cofiwn ni amdano gan mwyaf bellach, ond yn ogystal â bod yn emynydd rhagorol, roedd hefyd yn gynghorwr penigamp, a wnaeth odid mwy na neb i sicrhau llwyddiant y seiadau Methodistaidd cynnar, a'u bod yn ateb diben eu bodolaeth, sef dod â phobl i brofiad byw o'r Arglwydd Iesu Grist, a'u galluogi i dyfu yn eu ffydd a'u dibyniaeth a'u hymroddiad iddo. O wythnos i wythnos, fe anogid yr aelodau i rannu sut y bu'r Arglwydd yn ymdrin â nhw ers eu cyfarfod diwethaf, pa brofiadau a gawsant ohono, a sut y cawsant nerth i wrthsefyll temtasiwn a gosod pechod o dan draed. Mae'r canllawiau a'r egwyddorion i'w gweld yn ei gyfrol *Drws y Society Profiad*. Efallai mai'r syniad a gawn ni wrth feddwl am y seiat Fethodistaidd ydy am 'bobl dda yn meddwl eu bod nhw'n ddrwg', chwedl Wil Bryan wrth roddi ei lathen ar 'Natur Eglwys' yn nofel Daniel Owen, *Rhys Lewis*. Ond fe wyddai'r Methodistiaid cynnar

hyn am eu gwendidau cystal â neb, a sut i gyffesu'r rheiny a derbyn maddeuant a heddwch Duw.

Ymdrin â'r enaid mae Williams yn yr emyn hwn. Gwyddai am yr euogrwydd a grëir ynom ni gan bechod, a chyda'i hyfforddiant meddygol yn gwybod beth oedd cysylltiad poen â'r corff. Pe na byddai poen yn rhan o salwch ac afiechyd y corff, yna byddem yn gadael i'r broblem barhau heb sylwi dim arni, ac yn y diwedd byddem yn cael ein difa. Yn yr un modd fe welwn euogrwydd mewn cysylltiad â'r enaid fel y mae poen â'r corff dynol. Ac mae lles mewn synnwyr o euogrwydd. Euogrwydd yw baner goch Duw i'n rhybuddio bod rhywbeth o'i le arnom yn foesol a bod angen rhoi sylw i hynny. Os na wnawn ni bydd ein bywyd moesol yn chwalu, a phwy a ŵyr beth fydd canlyniad hynny wedyn. Er mwyn ein hiacháu mae Duw'n ein taro. Cariad Duw ar waith ynom er mwyn ein hiacháu ydy euogrwydd. Mae'n ein gwthio tuag ato er mwyn ceisio rhyddhad a rhyddid oddi wrtho. Peth da ydy euogrwydd, felly, os gwyddom ni at bwy i fynd ag ef. Ni allwn ryddhau ein hunain oddi wrtho. Gall ein llusgo i lawr a bod yn faich mawr arnom os na wnawn rywbeth yn ei gylch.

Cawn ein cymell gan Williams i rannu yn ei brofiad ef ac edrych tuag at yr un nad oes 'debyg iddo fe'. Cawn ein cyfeirio at yr Un yr ydym ni wedi pechu yn ei erbyn, yr Un a glwyfwyd am ein pechodau ni. Dim ond wrth 'deimlo dwyfol loes' y mae'r euogrwydd sy'n pwyso arnom yn codi oddi ar ein hysgwyddau.

Taith y Pererin, John Bunyan, yn aml, oedd unig gydymaith y Beibl yng nghartrefi pobl y seiat, ac mae adlais yma yn emyn Williams o hanes Cristion yn cyrraedd y groes a'i bwn yn cael ei godi oddi ar ei gefn.

Nid oes neb all lanhau enaid sydd yn glaf o bechod, sydd yn llawn euogrwydd, fel Crist, meddyg eneidiau. Fe gaiff y 'brwnt gael bod yn wyn'; 'fe sugna f'enaid innau'n lân', ac fe dry popeth yn 'harddach nag o'r blaen' yn ei gwmni ef.

GWEDDI

O Arglwydd, diolch iti am dy lanhad a'th iachâd i'm henaid wrth i mi daflu baich f'euogrwydd wrth waelod dy groes. Gad i'm henaid ganu yn dy gwmni di. Amen.